

Tai Amlfeddiannaeth

Canllawiau Cynllunio Atodol



Hydref 2016

Tai Amlfeddiannaeth Canllawiau Cynllunio Atodol

Cynnwys

| | | |
|-----|---|------------|
| 1.0 | Cyflwyniad | Tudalen 3 |
| 2.0 | Terminoleg | Tudalen 4 |
| 3.0 | Cyd-destun Polisi Cynllunio | Tudalen 5 |
| 4.0 | Effaith Tai Amlfeddiannaeth ar Gymunedau | Tudalen 7 |
| 5.0 | Rheoli Ardaloedd Tai Amlfeddiannaeth Dwys | Tudalen 9 |
| 6.0 | Canllaw Cynllun ar gyfer cynigion Tai Amlfeddiannaeth | Tudalen 11 |
| 7.0 | Map Trothwy Tai Amlfeddiannaeth | Tudalen 16 |
| | Atodiadau | Tudalen 18 |
| | Atodiad A – Rhestr Wirio Cais Cynllunio | Tudalen 18 |
| | Atodiad B – Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yng Nghymru | Tudalen 18 |
| | Atodiad C – Safonau Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth | Tudalen 19 |
| | Atodiad D – Rheoli Gwastraff | Tudalen 20 |
| | Atodiad E – Newid Demograffaid | Tudalen 21 |
| | Atodiad F – Trosedd ac Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol | Tudalen 24 |
| | Atodiad G – Iechyd Amgylcheddol | Tudalen 27 |
| | Atodiad H – Sylwadau'r Ymgynghoriad | Tudalen 29 |
| | Gwybodaeth Bellach | Tudalen 30 |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg

Cyswllt

Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd
Ystafell 201
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Ffôn: 02922 330800

E-bost: rheolidatblygu@caerdydd.gov.uk.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Beth yw Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)?

- 1.1.1 Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn cefnogi'r defnydd o Ganllawiau Atodol (CCA) fel canllawiau manwl ynghylch y modd y bydd polisiau'r cynllun datblygu yn cael eu defnyddio mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Rhaid i'r CCA fod yn gyson â pholisiau'r cynllun datblygu a chanllawiau polisi Cynllunio Cenedlaethol. Cyn iddynt gael eu mabwysiadu, mae'r CCA yn mynd drwy gyfnod o ymgynghori cyhoeddus a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor. Ar ôl eu mabwysiadu gan Gyngor Dinas Caerdydd ym mis Medi 2016, death y CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol.
- 1.1.2 Mae'r ddogfen hon yn ategu Polisi H5 Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDLI) 2006 -2026 mabwysiedig. Mae hyn yn ymwneud ag isrannu neu addasu i fflatiau neu Dai Amlfeddiannaeth.

1.2 Beth yw hanes CCA Tai Amlfeddiannaeth?

- 1.2.1 Aeth y Canllawiau i ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 9 Mai 2016 a 20 Mehefin 2016. Fe'i mabwysiadwyd gan Gyngor Caerdydd ar 20/10/2016. Caiff effaith y Canllawiau ei monitro wedi'r mabwysiadu yn ogystal â gwneud adolygiad os gwelir bod angen hynny.

1.3 Beth yw the pwrpas y CCA hyn?

- 1.3.1 Y pwrpas yw rhoi gwybodaeth gefndirol am sut y bydd y cyngor yn asesu ceisiadau am ganiatâd cynllunio i greu Tai Amlfeddiannaeth C4 newydd a *Sui Generis*, ac i roi'r rhesymeg am hyn. Ceir mwy o wybodaeth am y cyd-destun polisi yn 3.0. Ceir mwy o wybodaeth am gefndir y CCA hyn a rôl Tai Amlfeddiannaeth yn y ddinas yn 4.0.
- 1.3.2 Bydd y Cynlluniau'n pennu'r trothwy sy'n nodi pan mae dwysedd y Tai Amlfeddiannaeth mewn ardal wedi cyrraedd lefel yr ystyrir sy'n effeithio'n wael ar gymuned. Ceir eglurhad mwy manwl o hyn yn 5.0. Yn ail, mae'n rhoi canllaw ar sut y dylid datblygu Tai Amlfeddiannaeth, os yw'n briodol eu datblygu yn y lleoliad a gynigir. Ceir rhagor o fanylion yn 6.0.
- 1.3.2 Defnyddir y CCA i asesu Tai Amlfeddiannaeth sydd angen caniatâd cynllunio. Ni ellir eu cymryd i ystyriaeth wrth gyflwyno trwyddedau dan ddeddfwriaeth tai neu reoliadau adeiladu. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch gofynion trwyddedu'r holl Dai Amlfeddiannaeth yng Nghaerdydd ar gael ar **Wefan Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir www.srs.wales**

2.0 Terminoleg

2.1 Tŷ annedd

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987¹ (fel y'i diwygiwyd) yn diffinio Dosbarth Defnydd C3 - Tŷ Annedd fel eiddo y'i defnyddir (p'un ai fel unig neu brif eiddo ai peidio) gan:

- a) berson sengl neu gan bobl sydd i'w hystyried fel rhai sy'n ffurfio aelwyd unigol
- b) nid mwy na chwe phreswlydd yn byw gyda'i gilydd fel un aelwyd lle darperir gofal i breswylwyr; neu
- c) nid mwy na chwe phreswlydd yn byw gyda'i gilydd fel un aelwyd lle na ddarperir gofal i breswylwyr (ar wahân i ddefnydd o fewn dosbarth C4)

2.1.2 At ddibenion (a) uchod, dehonglir aelwyd unigol yn unol ag adran 258 o Ddeddf Tai 2004

2.2 Tai Amlfeddiannaeth

2.2.1 Yn nhermau Cynllunio, gellir rhannu Tai Amlfeddiannaeth yn ddau fath. Mae ystyr Tai Amlfeddiannaeth fel y nodir yn adran 254 Deddf Tai 2004.

- a) Mae Tai Amlfeddiannaeth bychain yn cyfeirio at dai neu fflatiau a rennir gan 3-6 person nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, ac sy'n rhannu cyfleusterau sylfaenol. Mae hyn yn Nosbarth Defnydd cynllunio C4. Mae angen caniatâd cynllunio er mwyn newid defnydd Dosbarth Defnydd C4.
- b) Mae Tai Amlfeddiannaeth mawr yn cyfeirio at eiddo lle mae dros chwe pherson nad ydynt yn perthyn i'w gilydd yn rhannu. Nid ydynt mewn unrhyw ddsbarth defnydd, ac fe'i hystyriar yn *'Sui Generis'* ('maent o'u math eu hunain). Mae angen caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer newid defnydd i Dai Amlfeddiannaeth Sui Generis.

2.2.2 Mae diffiniadau ar wahân ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn nhermau trwyddedu eiddo. Yn gyffredinol, mae Tai Amlfeddiannaeth bychain yn rhai gyda 3-5 person yn byw ynddynt a'r rhai mwy yn rhai â 5 neu ragor o bobl A 3 neu ragor o lorïau. Ceir eglurhad manylach yn 5.3.

2.2.3 Ers eu creu yn ddsbarth defnydd cynllunio ym mis Chwefror 2016, mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth Llai (C4). Mae'r Canllawiau hyn yn egluro sut y bydd y Cyngor yn asesu ceisiadau am ganiatâd cynllunio er mwyn creu Tai Amlfeddiannaeth C4 a sui generis. Ceir eglurhad mwy trwyadl yn 3.1.4.

3.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio

3.1 Polisi Cenedlaethol

3.1.1 Polisi Cynllunio (Argraffiad 8, 2016)

Mae'r ddogfen hon yn nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Rhoddir cyngor trefniadol mewn cylchlythyrau a llythyrau sy'n egluro polisi

3.1.2 Noda paragraff 3.1.7:

Nid yw'r system gynllunio yn bodoli i ddiogelu buddiannau preifat un person yn erbyn gweithgareddau un arall. Dylid ystyried cynigion yn nhermau eu heffaith ar amwynder a'r defnydd presennol o'r tir a'r adeiladau er budd y cyhoedd. Mae'r Llysoedd wedi dyfarnu bod budd yr unigolyn yn agwedd ar fudd y cyhoedd, ac felly mae'n ddilys ystyried yr effaith a gaiff cynnig ar amwynder eiddo cyffiniol. Fodd bynnag, dylid seilio ystyriaeth o'r fath ar egwyddorion cyffredinol, gan adlewyrchu budd ehangach y cyhoedd (er enghraifft, safon o "fod yn gyndogion da") yn hytrach na phryderon yr unigolyn.

3.1.3 Noda paragraff 9.3.3:

Ni ddylid caniatáu i fewnlenwi ansensitif, neu effeithiau cronol datblygu neu aiddatblygu gan gynnwys newid ac addasu, ddifrodi cymeriad neu amwynder ardal. Mae hyn yn cynnwys unrhyw effaith o'r fath ar anheddau cyfagos, fel colli preifatrwydd neu daflu cysgod i raddau difrifol.

- 3.1.4 Yn dilyn ymgynghori, creodd deddfwriaeth Llywodraeth Cymru Ddosbarth Defnydd C4 ar 25 Chwefror 2016. Newidiodd hyn ddiffiniad Tai Amlfeddiannaeth yn y system gynllunio trwy gyflwyno Tai Amlfeddiannaeth Llai, a oedd cyn hyn yn nosbarth defnydd C3. Mae hyn yn golygu y gellir creu polisi sy'n cyfeirio at Dai Amlfeddiannaeth Llai a mwy fel y diffinnir yn 2.2.1.

3.2 Polisi lleol

- 3.2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDLI) 2006-2026 ym mis Ionawr 2016. Mae polisi yn y CDLI yn cyfeirio'n benodol at isrannu neu addasu eiddo preswyl. Amlinellir hyn isod. Mae nifer o bolisiau eraill hefyd yn berthnasol i ddatblygiad Tai Amlfeddiannaeth a chyfeirir atynt drwy gydol y CCA hyn. Oni nodir yn wahanol, bydd polisiau a nodir yn y CCA hyn yn cyfeirio at y rhai o fewn y CDLI.

Mae Polisi H5: Isrannu neu addasu eiddo preswyl yn nodi:

Caniateir ceisiadau am unrhyw newid i fflatiau neu Dai Amlfeddiannaeth lle:

- i) Mae'r eiddo o faint, lle byddai'r cynllun, maint yr ystafelloedd, ystod o gyfleusterau a gofod amwynder allanol yr eiddo sy'n deillio yn sicrhau safon ddigonol o amwynder preswyl ar gyfer preswylwyr ydyfodol.*
- ii) Na fyddai unrhyw niwed sylweddol i amwynder y preswylwyr presennol cyfagos o ran aflonyddwch cyffredinol, sŵn, neu edrych drosodd.*
- iii) Na fydd effaith gronnydd addasiadau o'r fath yn effeithio'n andwyol ar amwynder a/neu gymeriad yr ardal.*
- iv) Na fydd yn cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth barcioleol.*

- 3.2.2 Mae'r testun ategol mewn perthynas â'r polisi uchod fel a ganlyn:

5.18 : Gall isrannu adeilad preswyl yn unedau preswyl llai fod yn ffynhonnell bwysig o dai. Gall

gymryd gwahanol ffurfiau megis:

- *Isrannu tai presennol yn fflatiau a Thai Amlfeddiannaeth*
- *Addasu Tai Amlfeddiannaeth yn fflatiau.*

5.19 : Mae'r cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i bob addasiad o fflatiau a Thai Amlfeddiannaeth fod o ansawdd uchel ac i gael ei ddylunio'n dda.

5.20 : Amcanion y polisi yw:

- *Cefnogi creu datblygiad cynaliadwy deniadol o fflatiau hunangynhaliol a Thai Amlfeddiannaeth;*
- *Hyrwyddo dyluniad a gosodiad da.*

5.21 : Mae isrannu adeilad yn unedau preswyl llai yn ffurf gynaliadwy o ddatblygiad gan ei fod yn rhoi bywyd newydd i adeiladau a allai fod yn ddiangen neu'n economaidd anhyfyw yn eu defnydd presennol.

5.22 : Gyda newidiadau sympathetig i du allan adeilad, mae addasu yn cael effaith weledol is ary strydlun drwy gadw'r ffryntiad presennol a pharchu cymeriad ardal.

5.23 : Fodd bynnag, gall gwaith addasu anfoddfaol arwain at lety sydd yn ffurf o or-ddwysau datblygiad, gan arwain at adeiladau annigonol ac o ansawdd gwael. Gall preswylwyr wynebu problemau, megis edrych drosodd, golwg gwael tuag allan, gorlenwi, a diffyg manau amwynder, sŵn ac aflonyddwch o eiddo cyfagos, a mynediad anghyfleus ac anniogel.

3.3 Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth

- 3.3.1 Dylai perchnogion eiddo sydd wedi cael ei restru gan Cadw oherwydd ei ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig neu sydd mewn ardal gadwraeth ofyn am gyngor ychwanegol cyn ystyried addasu i HMO. Efallai y bydd llawer o newidiadau neu o gyfleusterau cysylltiedig (megis storffeydd biniau, goleuadau to neu ffenestri dormer) sydd yn aml yn rhan o addasu i HMO, angen caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig (LBC), a byddant yn llai derbyniol mewn ardaloedd hanesyddol wedi eu dynodi na mewn manau eraill yn y ddinas.
- 3.3.2 Mae'n ofynnol i geisiadau mewn ardaloedd cadwraeth gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal, fel y nodir ym Mholisiau CDLI KP17 ac EN9 y CDLI. Ceir cyngor penodol ynghylch pob ardal gadwraeth ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/cadwraeth. Hefyd gellir gwirio lleoliad ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig ar y wefan..

4.0 Effaith Tai Amlfeddiannaeth ar Gymunedau

- 4.1 Yn unol â KP5 y CDLI, mae Cyngor Dinas Caerdydd yn gofyn i bob HMO newydd fod o ansawdd uchel, wedi'i ddylunio'n dda ac yn addas i roi ansawdd bywyd da i breswylwyr a'r gymuned gyfagos.
- 4.2 Fel y nodwyd yn 3.2.2, cydnabyddir y gall Tai Amlfeddiannaeth ddarparu ffynhonnell bwysig o dai, a chydabyddir bod newid demograffig wedi gyrru llawer o'r newidiadau sydd wedi gweld cartrefi teuluol traddodiadol yn dod yn Dai Amlfeddiannaeth. Mae Tai Amlfeddiannaeth yn ffynhonnell llety poblogaidd i nifer o grwpiau, gan gynnwys myfyrwyr, gweithwyr proffesiynol ifanc, gweithwyr mudol ac yn aml bobl ar incwm is..
- 4.3 Er gwaethaf yr uchod, gall crynodiadau o dai amlfeddiannaeth, wedi'u clystyru mewn ardaloedd daearyddol bach dynnu oddi ar gymeriad yr ardal a chyfrannu'n weithredol tuag at nifer o broblemau canfyddedig, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r rhai a restrir isod. Ystyrir y gallai hyn wrthdaro â pholisi KP13 y CDLI sydd â'r nod o wella ansawdd bywyd i bawb.
- Mwy o ddwysedd poblogaeth, gan arwain at fwy o alw am seilwaith, megis casgliadau gwastraff a pharcio ar y stryd.
 - Cyfran uwch o breswylwyr dros dro, gan arwain o bosibl at lai o gydlynid cymunedol, a thanseilio cyfleusterau cymunedol presennol
 - Mae ardaloedd o grynodiadau HMO uwch yn dod yn llai poblogaidd gyda phreswylwyr lleol, gyda sawl eiddo wedi eu tynnu allan o'r farchnad perchen-feddiannaeth.
 - Mae toreth o eiddo yn wag ar adegau penodol o'r flwyddyn
 - Ceir effaith ddilynol ar drosedd, hyfywedd y ganolfan leol, o ganlyniad i nifer o'r tai amlfeddiannaeth hyn fod yn wag dros dro am gyfnodau hir.
- 4.4 Mae gan Gaerdydd nifer anghymesur o Dai Amlfeddiannaeth yng Nghymru. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan y ddinas boblogaeth o 346,090, yn cynrychioli 11% o boblogaeth Cymru o 3,063,456. Fodd bynnag, mae Caerdydd yn gartref i 33% o Dai Amlfeddiannaeth trwyddedig Cymru (gweler Atodiad B). Mae hyn yn dangos bod y nifer o Dai Amlfeddiannaeth yn bryder teilwng i'r ddinas. Yn ogystal, fel y dengys 5.3, mae dosbarthiad y Tai Amlfeddiannaeth hyn o fewn y ddinas yn anwastad iawn, gyda'r mwyafrif helaeth o eiddo sy'n drwyddedig yn orfodol yn ardaloedd Cathays a Phlasnewydd. Yn ei dro, arweiniodd hyn at i'r ddwy ward gael eu nodi fel 'ardaloedd trwyddedig ychwanegol'.
- 4.5 Gellir gweld tystiolaeth i'r materion a nodwyd yn 4.3 mewn nifer o ffynonellau, rhai ohonynt yn cael eu cyflwyno yn Atodiadau D, F a G. Mae'n darparu tystiolaeth y gall crynodiad dwys o Dai amlfeddiannaeth arwain at bryderon a phroblemau sylweddol i'r awdurdod lleol. Mae dau adroddiad nodedig yn tynnu sylw at y materion hyn; adroddiad Ecotec 2008 i Lywodraeth y DU o'r enw *Evidence Gathering - Housing in Multiple Occupation and possible planning responses* ac adroddiad 2015 i Lywodraeth Cymru o'r enw *Tai Amlfeddiannaeth: Adolygu a Chasglu Tystiolaeth*. Daw'r ddau adroddiad i'r casgliad y gall crynodiad o Dai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd bach greu canlyniadau negyddol.
- 4.6 Ceir newid demograffig ym mhob Awdurdod Lleol ac ym mhob ward oddi mewn i'r Awdurdodau Lleol hynny. Ni ellir ei ddefnyddio fel penderfynydd o rywbeth sy'n gadarnhaol neu'n negyddol, ond mae'n gefndir defnyddiol i dynnu sylw at gyflymder, unigrywedd neu nodweddion nodedig yn y modd y mae rhai wardiau yn newid o'u cymharu ag eraill. Cyflwynir rhai ystadegau nodedig isod, ac mae mwy o ddata, gan gynnwys newidiadau dros y degawdau diwethaf, i'w cael yn Atodiad E:
- Mae maint aelwyd ar gyfartaledd, ar 2.8 o bobl, yn uwch yn Cathays nag unrhyw ward leol arall, a 0.5 o bobl yn uwch na'r cyfartaledd i'r ddinas.
 - Mae 77% o bobl yn Cathays a 51% ym Mhlasnewydd rhwng 15 a 29 oed. Y cyfartaledd ar draws y ddinas yw 28%.
 - Dim ond 4.5% o bobl Cathays a 9.6% ym Mhlasnewydd sydd yn 0-15 oed. Y cyfartaledd ar draws y ddinas yw 17%.

-
- 4.7 Mae Tîm Rheoli Gwastraff Cyngor Dinas Caerdydd yn cyfeirio at nifer o bryderon ynghylch y nifer uchel o faterion sydd wedi'u cronni'n arbennig yn Cathays a Phlasnewydd. Er nad yw'r data yn benodol i annedd, mae cydberthynas rhwng wardiau gyda chrynodiadau uchel iawn o Dai Amlfeddiannaeth a niferoedd sylweddol uwch o bryderon gwastraff. Cyflwynir y data yn llawn yn Atodiad D. Er enghraifft;
- O ran y digwyddiadau yr adroddwyd arnynt gan y cyhoedd sy'n ymwneud â glanhau strydoedd, mae Cathays yn derbyn mwy na dwbl cyfartaledd y ddinas ar gyfer galwadau, a derbyniodd Phlasnewydd 173% o'r cyfartaledd.
 - Mae ceisiadau gorfodi gwastraff gan y cyhoedd yn 152 y flwyddyn yn Cathays a 233 ym Mhlasnewydd, o gymharu â chyfartaledd ar draws y ddinas o 57 fesul ward.
 - O ran Gwastraff a cheisiadau i lanhau strydoedd gan y cyhoedd, mae'r cyfartaledd galwadau i Cathays ddwbl y cyfartaledd ar draws y ddinas, ac ym Mhlasnewydd mae'r galw dair gwaith y cyfartaledd.
- 4.8 Mae tystiolaeth y gall crynodiad o Dai Amlfeddiannaeth arwain at ganlyniadau negyddol mewn perthynas â throedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn benodol, ystyrir bod byrgleriaeth yn fwy cyffredin mewn strydoedd gyda chrynodiadau uchel o Dai Amlfeddiannaeth, ac mae'r un patrwm amlwg o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ystyrir hyn yn fwy manwl yn Atodiad F. Er enghraifft;
- Mae strydoedd gyda niferoedd mawr o Dai Amlfeddiannaeth yn fwy tebygol o gael digwyddiadau heddlu na strydoedd tebyg gydag ychydig, neu ddim HMOs
 - Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a byrgleriaeth, lle mae strydoedd gyda niferoedd uchel o Dai Amlfeddiannaeth yn sylweddol fwy tebygol o adrodd am ddigwyddiadau na strydoedd cymharol sydd â niferoedd is o Dai Amlfeddiannaeth.
- 4.9 Gall cymunedau symudol achosi problemau o ran rheoli a chynnal cymuned fusnes fywiog dros gyfnod o 12 mis. Er y cydnabyddir bod Tai Amlfeddiannaeth yn cael eu poblogi gan bobl heblaw myfyrwyr, mae myfyrwyr yn cynrychioli cyfran fawr iawn o breswylwyr Tai Amlfeddiannaeth, a gellir cymryd yn ganiataol y bydd myfyrwyr yn byw mewn llawer o Dai Amlfeddiannaeth newydd. Gan fod llawer o fyfyrwyr yn debygol o fod yn absennol o'r eiddo hyn am 4-5 mis y flwyddyn, gall natur y math hwn o denantiaeth effeithio ar hyfywedd canolfannau lleol, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.
- 4.10 Gyda'i gilydd, mae'r materion uchod yn cyfeirio at gasgliad bod costau cymdeithasol neu amwynder yn dod yn sgil y crynodiad o Dai Amlfeddiannaeth fel a geir mewn rhannau o'r ddinas. Er efallai na fydd unrhyw HMO newydd unigol yn effeithio'n uniongyrchol ar hyn, gyda'i gilydd, mae eu crynodiad yn rhywbeth y gall y Cyngor, yn haeddiannol, deimlo bod angen eu rheoli er budd y gymuned yn gyffredinol. Yn hyn o beth, gall crynodiad o Dai Amlfeddiannaeth wrthdaro â rhannau o bolisi KP13.
- 4.11 Er gwaethaf y materion sy'n gysylltiedig â chrynodiadau, cydnabyddir bod Tai Amlfeddiannaeth yn chwarae rhan bwysig yn stoc tai'r ddinas, gan ddarparu llety a chartrefi i nifer fawr o breswylwyr, gan gynnwys y rhai sydd yn aml yn methu a phrynu eu heiddo eu hunain. Pan fo addasu yn briodol, mae'n bwysig cynnal safonau dylunio ac amwynder uchel.

5.0 Rheoli crynodiad Tai Amlfeddiannaeth

- 5.1 Un o amcanion y CCA hyn yw nodi trothwy lle y bernir bod lefel y Tai Amlfeddiannaeth mor uchel fel bod hynny'n cael effaith niweidiol ar y gymuned mewn perthynas â, ond heb fod yn gyfyngedig i'r, materion a nodwyd yn 4.3. Fel y nodwyd yn 2.2. 1, bydd y CCA hyn yn defnyddio diffiniadau cynllunio o Dai Amlfeddiannaeth, gyda Thai Amlfeddiannaeth llai yn cael eu dosbarthu fel C4 a rhai mwy o faint fel *Sui Generis*.
- 5.2 Mae'n bwysig cyfeirio at a pharchu lleoliad y Tai Amlfeddiannaeth presennol er mwyn nodi'r ardaloedd lle golyga y byddai'r Cyngor, oherwydd crynodiad uchel, yn ceisio atal datblygiad rhagor o Dai Amlfeddiannaeth. Penderfynir hyn trwy ddefnyddio data sydd gan y Cyngor megis ceisiadau cynllunio, data Tai Amlfeddiannaeth trwyddedig, data'r dreth gyngor a gwybodaeth o'r gofrestr etholwyr.
- 5.3 Er dibenion dadansoddi, mae'n fwyaf addas defnyddio data trwyddedu. Mae gan Dai Amlfeddiannaeth trwyddedig yng Nghaerdydd ddau ddsbarth; ar draws y ddinas, mae system drwyddedu orfodol ar gyfer anheddau sydd â thri llawr neu fwy, ac yn cynnwys o leiaf bum preswlydd nad ydynt yn un aelwyd. Yn wardiau Cathays a Phlasnewydd, mae trwydded ychwanegol hefyd ar waith ar gyfer eiddo gyda thri neu fwy o breswylwyr nad ydynt yn aelwyd. Nid yw Trwyddedu Ychwanegol yn cael ei ddefnyddio mewn wardiau eraill. Ym mis Chwefror 2016, roedd 86% o'r holl Dai Amlfeddiannaeth trwyddedig gorfodol wedi'u canoli mewn dwy ward.

| Trwyddedau Gorfodol | | |
|------------------------|----------------------------|------------------------------------|
| Ar draws y ddinas | 962 o Dai | |
| Cathays | 555 o Dai | 58% o'r cyfanswm ar draws y ddinas |
| Plasnewydd | 283 o Dai | 29% o'r cyfanswm ar draws y ddinas |
| Yr holl wardiau eraill | 124 o Dai | 13% o'r cyfanswm ar draws y ddinas |
| Trwyddedau Ychwanegol | | |
| Cathays | 1688 o Dai Amlfeddiannaeth | |
| Plasnewydd | 257 o Dai Amlfeddiannaeth | |

- 5.4 Cydnabyddir bod diffiniadau Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, fel y nodwyd eisoes, yn wahanol i'r rhai Cynllunio. Fodd bynnag, mae'r cyfuniad o *Drwyddedau Gorfodol* ac *Ychwanegol* yn nodi clystyrau clir o Dai Amlfeddiannaeth (waeth beth fo maint yr HMO) mewn rhai rhannau o'r ddinas. Mae'r materion a nodir yn Adran 4 yn parhau; bod Tai Amlfeddiannaeth yn effeithio ar ardaloedd cyfagos, p'un a yw'r eiddo yn orfodol neu'n ychwanegol yn nhermau Trwyddedu, neu a yw'n HMO C4 neu sui generis yn nhermau cynllunio.
- 5.5 Felly mae tystiolaeth;
- 1) Bod nifer fawr o Dai Amlfeddiannaeth yn y ddinas
 - 2) Nad yw lleoliadau'r Tai Amlfeddiannaeth wedi'u dosbarthu'n gyfartal o amgylch y ddinas
 - 3) Heb ystyried y pwyntiau cadarnhaol neu negyddol y mae Tai Amlfeddiannaeth yn eu golygu i gymunedau, byddai'r gwahaniaeth mewn dosbarthiad yn cyfiawnhau dull gwahanol o ymdrin â'u twf mewn gwahanol ardaloedd o'r ddinas, gan ddibynnu ar y lefel crynodiad presennol.
- 5.6 Ar ôl nodi yn 4.3 rai o'r problemau a achosir gan Dai Amlfeddiannaeth, ac wedi dangos eu dosbarthiad anwastad o gwmpas y ddinas, mae angen penderfynu ar y trothwy lle gall Tai Amlfeddiannaeth newydd o bosib achosi niwed i'r ardal leol. Bydd y trothwy hwn yn gwrthsefyll Tai Amlfeddiannaeth pellach mewn cymunedau sydd eisoes â chrynodiad uwch na'r terfyn hwn, tra hefyd yn rheoli twf Tai Amlfeddiannaeth mewn cymunedau o dan y trothwy hwn.
- 5.7 Defnyddir trothwy dwy haen i bennu pryd mae ardal wedi cyrraedd y pwynt lle byddai Tai Amlfeddiannaeth pellach yn achosi niwed.

- 1) Yn Cathays a Phlasnewydd ffigwr o 20%
- 2) Yn yr holl wardiau eraill, ffigwr o 10%

Golyga hyn os yw mwy na 20% o'r anheddau yn Cathays neu Blasnewydd - o fewn radiws 50m i'r HMO arfaethedig - yn Dai Amlfeddiannaeth sydd eisoes wedi sefydlu (h.y. naill ai'n sui generis neu'n C4 mewn termau cynllunio) yna ystyrir y datblygiad hwnnw'n annerbyniol. Mewn wardiau eraill, byddai'r ffigwr yn 10%. Dangosir hyn ar fap yn 7.1 ac fel enghreifftiau yn 7.2 a 7.3.

Gellir cyfiawnhau hyn oherwydd bod Cathays a Phlasnewydd yn cynnwys nifer llawer uwch o Dai Amlfeddiannaeth na rhannau eraill o'r ddinas, ac maent wedi eu dynodi fel ardaloedd Trwyddedu Ychwanegol.

Mae cydnabyddiaeth i'r rôl y mae Tai Amlfeddiannaeth yn ei chwarae yn y wardiau hyn yn cael ei adlewyrchu yn y trothwy uwch, sy'n caniatáu ar gyfer twf cynaliadwy. Mewn mannau eraill, gyda niferoedd llai o Dai Amlfeddiannaeth, byddai'r trothwy o 20% yn caniatáu ar gyfer nifer fawr o addasiadau o sylfaen isel. O'r herwydd, ystyrir bod y trothwy o 10% yn fwy priodol, gan ganiatáu twf yn yr ardaloedd hyn lle mae galw, tra'n cadw cymeriad hanfodol y cymunedau hynny, a gwrthsefyll y problemau a all ddigwydd yn sgil crynodiadau o Dai Amlfeddiannaeth. Mae'r ffigwr o 10% yn cael ei argymhell yn adroddiad *Tai Amlfeddiannaeth: Adolygu & Casglu Tystiolaeth, Llywodraeth Cymru*.

- 5.8 Wrth ystyried y lefel o grynodiad, fel y nodir yn 5.7, defnyddir diffiniad o 50m o'r eiddo dan sylw. O fewn hyn, bydd yr holl dai annedd sydd â'u prif fynedfa yn wynebu'r stryd o fewn y radiws hwn yn cael eu cynnwys. Ystyrir 50m yn raddfa briodol i adlewyrchu'r ardal sy'n gorwedd o fewn cylch dylanwad eiddo, megis cael eu heffeithio o ran amwynder neu aflonyddwch. Mae hefyd yn bellter priodol mewn wardiau mewnol sydd â phoblogaeth ddwys, a bydd yn sicrhau bod llawer o dai yn cael eu hystyried. Mae dinasoedd eraill yn defnyddio radiws sy'n amrywio rhwng 40m a 200m. Fodd bynnag, byddai ardaloedd mwy (megis radiws 100m, neu hyd y stryd gyfan) yn gyntaf yn achosi llai o effaith o ran amwynder, ac yn ail ni fyddai'n newid y canlyniad o ran asesu crynodiadau rhyw lawer, a phetai'n gwneud hynny, byddai hynny drwy ystyried eiddo ymhellach i ffwrdd o'r HMO arfaethedig ar draul y rhai hynny sydd gerllaw.
- 5.9 Mewn rhai amgylchiadau, gall hefyd fod yn briodol ystyried p'un a yw tai annedd sydd union gerllaw eiddo sydd eisoes yn Dai Amlfeddiannaeth. Ni ddylai orbwysu'r egwyddor graidd fel y nodir yn 5.7, ond mae'n ystyriaeth wrth benderfynu i ba raddau y gall HMO newydd effeithio ar gymdogion. Er enghraifft, os yw eiddo yn cael ei amgylchynu'n gyfan gwbl gan Dai Amlfeddiannaeth ar bob ochr, mae hwn werth ei ystyried ochr yn ochr â'r prif benderfynydd o p'un a gyrhaeddir crynodiad a nodwyd o fewn 50m o'r eiddo.
- 5.10 Ni fydd eiddo sydd eisoes yn Dŷ Amlfeddiannaeth C4 yn cael dod yn Dŷ Amlfeddiannaeth *sui generis* yn awtomatig. Er ei fod eisoes yn Dŷ Amlfeddiannaeth, os yw crynodiad yr ardal yn uchel, yn ôl ei natur, ni fydd creu Tŷ Amlfeddiannaeth mwy, sui generis, ond yn chwyddo'r problemau a grëir gan y Tai Amlfeddiannaeth presennol. Felly, ni ystyrir datblygiadau C4 i Sui Generis yn niwtral nac yn ffafriol yn awtomatig. Felly hefyd, er bod angen i Dai Amlfeddiannaeth Sui Generis wneud cais cynllunio i addasu yn Dŷ Amlfeddiannaeth C4, dylid ei ystyried mewn ffordd gadarnhaol waeth faint yw'r crynodiad oherwydd y canlyniad fyddai bod Tŷ Amlfeddiannaeth llai yn ei le, ac ni fyddai hynny'n gwaethygu problemau a achosir gan grynodiad Tai Amlfeddiannaeth.
- 5.11 Mae'n bosibl y bydd angen i Dai Amlfeddiannaeth a oedd yn bodoli cyn creu'r dosbarth defnydd C4 ar 25 Chwefror 2016 ddangos tystiolaeth yn profi eu statws Tŷ Amlfeddiannaeth trwy gytundebau tenantiaeth a dogfennaeth arall. Fel arall, ystyrir mai anheddau C3 ydynt ac felly y cânt eu trin.
- 5.12 Gellir trafod datblygu Tai Amlfeddiannaeth ar Safle Tir Llwyd neu ddatblygu Tai Amlfeddiannaeth nad ydynt yn arwain at golli eiddo C3 yn ffafriol. Er y bydd hyn yn arwain ar grynodiad uwch o Dai Amlfeddiannaeth a'r problemau y gall hynny eu cyflwyno, bydd yn ychwanegu at gyfanswm y stoc tai na fydd yn arwain at golli anheddau teulu.

6.0 Canllawiau Dylunio i Dai Amlfeddiannaeth Arfaethedig

6.1 Mae'r rhan hon o'r CCA yn cyflwyno canllawiau dylunio ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth a gynigir mewn lleoliadau addas. Yn Atodiad A ceir rhestr wirio o'r wybodaeth a fyddai'n ddisgwyliedig ochr yn ochr â'r cais.

6.1 Maint Ystafelloedd a Chyfleusterau

6.1.1 Mae adroddiad Caerdydd *Trwyddedu Diogelwch Tân a Safonau Amwynder Tai Amlfeddiannaeth* (diweddarwyd yn 2014) yn gosod safonau o ran amwynder, safonau gofod a chyfleusterau y mae'n rhaid eu dilyn, a dyma'r lleiafswm y byddai disgwyl ei gyflawni..

6.1.2 Gwneir cyfeiriad penodol at y nifer o ystafelloedd ymolchi, toiledau, cyfleusterau cegin, a maint ystafelloedd o fewn Tai Amlfeddiannaeth. Y ffigyrau yw'r lleiaf a dderbynnir i'r diben o drwyddedu, ac maent yn cynnig lefel briodol o ran cynllunio yng nghyswllt y lleiafswm a ddisgwyilir. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at drwyddedu cyn cyflwyno cais cynllunio. Atgynhychir y data yn Atodiad C.

6.1.3 O ran uchder nenfwd, rhaid dangos uchder priodol i sicrhau safon dda o fyw fel rhan o'r cais. O ran addasu atig, dim ond yr hyn sydd uwchlaw 1.5m sy'n cyfrif fel gofod ystafell gyfanheddol. Rhaid darparu o leiaf 2m o uchder uwchben grisiau sy'n cael ei fesur yn fertigol o linell oleddf y grisiau. Dylai'r ystafelloedd cyfanheddol fod ag uchder sy'n o leiaf 2m. Nodir isafswm yr arwynebedd llawr sy'n ofynnol ar gyfer ystafelloedd cyfanheddol yn Atodiad C.

6.2 Ailgylchu a Storio Gwastraff

6.2.1 Rhaid gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau gwastraff, ailgylchu a chompostio. Noda Polisi W2 y Cynllun Datblygu Lleol (Darpariaeth ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad):

Lle bo'n briodol, disgwyilir darpariaeth ym mhob datblygiad newydd ar gyfer cyfleusterau i storio, ailgylchu a rheoli gwastraff arall.

6.2.2 Pan gaiff gwastraff ei storio mewn ffryntiadau, rhaid ei gynnwys yn addas o fewn biniau, a ddarperir gan y landlord mewn ardaloedd bagiau, neu gan y Cyngor mewn ardaloedd biniau. Mae'r CCA diweddaraf *Gwastraff ac Ailgylchu: Casglu a storio* yn nodi:

"Rhaid i ddatblygwyr anheddau dwysedd uchel, amlfeddiannaeth neu bump neu fwy o fflatiau ddarparu storfa sbwriel bwrpasol neu fan storio wedi'i sgrinio ar gyfer biniau swmp. Rhaid i'r storfa biniau allu cynnwys y mwyafrif o gynwysyddion sydd eu hangen, yn seiliedig ar asesiad o sgil-gynhyrchion gwastraff a ragamcenir."

6.2.3 Mae'r CCA yn rhoi arweiniad ar ddarparu cyfleusterau storio gwastraff ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth mwy o faint, ac ailadroddir nhw isod:

| Nifer ystafelloedd gwely/ preswylwyr | Ailgylchu | Cyffredinol | Gardd | Bwyd |
|---|------------------|-------------------------|-------|---------|
| 1-5 | Bagiau (140L) | 1 x 140L | 240L | 1 x 25L |
| 6-8 | Bagiau (240L) | 1 x 240L | 240L | 2x 25L |
| 9-10 | Bagiau (380L) | 1 x 240L ac 1 x 140L | 240L | 3 x 25L |
| 11+ | Bagiau (480L) | 2 x 240L | 240L | 3 x 25L |

6.2.4 Gwrthodir ceisiadau cynllunio nad ydynt yn gallu dangos lle storio addas, dan do yn ddelfrydol, ar gyfer ailgylchu a gwastraff. Rhaid darparu man storio allanol i gynnwys ailgylchu a gwastraff am

gyfnod o 14 diwrnod. Ni ddylai mannau storio allanol gael effaith andwyol ar ofod amwynder, a byddant yn cael eu heithrio o'r cyfrifiadau.

- 6.2.5 Dylid rhoi sylw arbennig i leoliad a golwg storfeydd gwastraff mewn ardaloedd cadwraeth, ac o fewn cwrtil Adeilad Rhestredig, gall cyfyngiadau ychwanegol fod yn berthnasol hefyd.

6.3 Gofod amwynder

- 6.3.1 Mae gofod amwynder yn bwysig o ran cadw ansawdd bywyd i bobl sy'n byw yn yr annedd, ac i raddau llai, y rhai sy'n byw gerllaw. Gall gofod amwynder gyflawni llawer o wahanol swyddogaethau, megis lle chwarae diogel i blant, ardal arddwriaethol, lle i sychu dillad, neu i eistedd allan. Cyfeiria Polisi H5 yn benodol at ofod amwynder, gan nodi

Caniateir ceisiadau ar gyfer unrhyw addasiad i fflatiau neu dai amlfeddiannaeth lle:

- i) *Mae'r eiddo presennol o faint (heb gael ei ymestyn ar gyfer y defnydd arfaethedig) lle mae'r cynllun, maint yr ystafelloedd, ystod o gyfleusterau a gofod amwynder allanol yr eiddo sy'n deillio yn sicrhau safon ddigonol o amwynder preswyl i breswylwyr y dyfodol.*

- 6.3.2 Mae Cyngor Dinas Caerdydd fel enghraifft wedi defnyddio ffigwr o 25m² fel y lleiafswm o ofod amwynder defnyddiadwy allanol a ddisgwylir ar gyfer C3 neu anheddau, h.y., ar gyfer yr anheddau hynny sydd ar gyfer hyd at 6 o bobl. Dylai'r lefel hon hefyd fod yn berthnasol i eiddo C4. Byddai disgwyl i bob person ychwanegol gael 2.5m². O'r herwydd, yr isafswm a ddisgwylir ar gyfer HMO 7 gwely, er enghraifft, yw 27.5m² o ofod amwynder allanol. Dylai pob person ychwanegol olygu cynnydd cyfatebol o 2.5m². Ystyrir bod gofod amwynder defnyddiadwy o leiaf 1.4m o led, gan alluogi storio a mynediad.

| Personau mewn anheddau | Lleiafswm o ofod amwynder allanol sydd ei angen |
|------------------------|---|
| Hyd at 6 (Anheddau C4) | 25m ² |
| 7 (HMO Sui Generis) | 27.5m ² |
| 8 | 30m ² |
| 9 | 32.5m ² |
| 10 | 35m ² |

- 6.3.3 Dylai'r holl breswylwyr o fewn HMO gael mynediad at ofod amwynder heb effeithio ar breswylwyr eraill yn yr HMO, h.y. dylai mynediad fod trwy ofod cymunedol, nid ystafell wely breifat. Hefyd, ni ddylai'r gofod amwynder edrych dros ystafelloedd gwely lle mae pobl.

6.4 Parcio Cerbyd

- 6.4.1 Mae'r effaith ar barcio yn fater lleol allweddol gyda phob datblygiad preswyl, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos Tai Amlfeddiannaeth, lle y gall fod canfyddiad cynyddol o'r effaith y gall y math hwn o annedd ei chael ar ofod stryd sy'n aml yn gyfyngedig. O'r herwydd, dylai'r ddarpariaeth parcio ceir gael ei hymgorffori'n effeithiol yn nyluniad y datblygiad. Dywed Polisi H5 o'r Cynllun Datblygu Lleol:

'Caniateir ceisiadau ar gyfer unrhyw addasiad i fflatiau neu dai amlfeddiannaeth

lle: iv) nad yw'n cael effaith andwyol ar ddarpariaeth parcio leol.

Yn yr achos hwn, bydd y pwyntiau gorlawn, fel y nodwyd yn 5.7, yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar yr effaith a gaiff HMO ar barcio yn y stryd.

- 6.4.2 Dylid cyfeirio at safonau parcio'r Cyngor, a nodir yn CCA *Safonau Rheoli Effaith Trafnidiaeth a Pharcio* diweddaraf, sy'n rhoi arweiniad ar:

- Darpariaeth parcio car, beic, beic modur a pharcio i'r anabl
- Cynllun a dyluniad
- Lleiafswm Darpariaeth Parcio

6.4.3 Nodir arweiniad clir ar yr angen i ystyried darpariaeth barcio yn y CCA uchod, a ddywed:

Gall newidiadau defnydd sy'n cynnwys isrannu eiddo i greu unedau ychwanegol arwain at ddwysáu'r defnydd a chynnydd yn lefel y galw am barcio ceir. Mewn ardaloedd lle mae crynodiad uchel o dai unigol sydd mewn amlfeddiannaeth, neu sydd wedi eu hisrannu'n unedau fflatiau/ fflatiau un ystafell/ fflatiau lluosog, efallai bod gormod o barcio ar y stryd yn barod. Mewn lleoliadau lle ceir amgylchiadau o'r fath, bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw geisiadau ar gyfer isrannu pellach o ran effeithiau tebygol dwysáu'r pwysau parcio presennol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall effeithiau parcio tebygol ceisiadau gyfiawnhau defnydd hyblyg o'r safonau yn y CCA, gyda'r effaith na roddir caniatâd oni bai y gellir darparu manau parcio ychwanegol oddi ar y stryd o fewn cwrtill yr adeilad.

6.4.4 Wrth ddefnyddio safonau parcio, mae angen ystyried teilyngdod ac amgylchiadau pob cais cynllunio; gan gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer parcio beiciau, darpariaeth barcio bathodyn glas, parcio i ymwelwyr, ac unrhyw ffactorau sy'n ymwneud â lleoliad a chyd-destun.

6.4.5 Beth bynnag fo'r ateb parcio arfaethedig, rhaid rhoi ystyriaeth briodol i ymdrin â ffiniau a mynediad i gerddwyr. Mae'n rhaid i unrhyw wyneb caled newydd fod â draeniad priodol ac yn ddelfrydol yn cynnwys deunyddiau athraidd i greu draenio cynaliadwy. Bydd angen caniatâd gan adran Asedau Priffyrdd y Cyngor ar gyfer croesfannau llwybr troed newydd a chyrbau isel. Bydd unrhyw sylw i geisiadau am fannau parcio newydd yn y ffyrnt neu'r cefn, gan ddefnyddio llecynnau nad ydynt yn fannau parcio ar hyn o bryd, yn cael ei roddi yn erbyn yr angen i ddarparu lle amwynder preifat.

6.5 Storio beiciau

6.5.1 Mae'r cyngor yn cefnogi ac yn annog beicio fel dull teithio cynaliadwy ac fel y cyfryw mae'n annog darpariaeth feicio briodol fel rhan o ddatblygiadau preswyl. Dywed Polisi T1 o'r Cynllun Datblygu Lleol:

I alluogi pobl i gael mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau hanfodol a chyfleusterau cymunedol drwy gerdded a beicio, bydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n cynnwys:

vii) Cyfleusterau cefnogol yn cynnwys arwyddion, parcio beiciau diogel a, lle bo angen, cawod a chyfleusterau newid.

6.5.2 Mae safonau parcio beiciau'r cyngor yn cael eu nodi yn y CCA Safonau Rheoli Effaith Trafnidiaeth a Pharcio diweddaraf. Mae'r CCA yn nodi y dylid rhoi un man parcio beic ar gyfer pob ystafell wely mewn Tai Amlfeddiannaeth. Dylid lleoli unrhyw storfa beiciau y tu allan i'r eiddo ac ni ddylid storio beiciau mewn cynteddau a rennir, ar risiau neu bennau grisiau, gan fod hyn yn rhwystro'r ffyrdd o ddianc petai tân.

6.5.3 Dylai storfeydd beiciau y tu allan fod yn ddiogel, yn gysgodol ac wedi'u goleuo'n ddigonol, gyda mynediad hawdd i'r stryd. Dylid ystyried y ddarpariaeth i barcio a storio beiciau o'r cychwyn wrth ddylunio HMO.

6.6 Sŵn

6.6.1 Dylai dyluniad a chynllun Tai Amlfeddiannaeth newydd leihau'r posibilrwydd o niwsans sŵn. Trwy ddiffiniad, mae'n debygol y bydd Tai Amlfeddiannaeth yn cael eu defnyddio gan fwy o bobl nag annedd sengl, ac mae hefyd yn fwy tebygol y bydd y preswylwyr yn fwy byrhoedlog, neu â llai o gysylltiad â'i gilydd. Gall hyn arwain at nifer fwy o symudiadau ac aflonyddwch i'r rhai sy'n byw mewn, a gerllaw, HMO.

6.6.2 Mae insiwleiddio sŵn effeithiol yn bwysig rhwng Tai Amlfeddiannaeth ac eiddo cyfagos, a hefyd oddi mewn i Dai Amlfeddiannaeth. Ymdrinnir â hyn o dan y Rheoliadau Adeiladu, nid Cynllunio, ond mae'n rhywbeth i'w ystyried yn y dyluniad. Gall amodau cynllunio fod ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd a roddir er mwyn sicrhau y ceir inswleiddio sŵn digonol.

6.7 Goleuni ac edrych allan

- 6.7.1 Rhaid i bob ystafell gyfanheddol gael golau naturiol, modd o edrych allan, golau ac awyru. Er enghraifft, nid yw ystafell fyw sy'n dibynnu ar ffenestri to yn dderbyniol.
- 6.7.2 Mae preifatrwydd oddi mewn i Dai Amlfeddiannaeth a rhwng Tai Amlfeddiannaeth ac eiddo cyfagos yn bwysig. Dylai ystafelloedd gael eu trefnu mewn modd sy'n gwneud y mwyaf o safonau byw y preswylwyr, gan atal edrych dros eiddo cyfagos ac osgoi ystafelloedd gwely sy'n wynebu waliau terfyn uchel. Mae hyn yn cyd-fynd â KP5 y CDLI.

6.8 Mynediad

- 6.8.1 Dylai Tai Amlfeddiannaeth sydd uwchben siopau neu swyddfeydd gael eu mynediad ar wahân eu hunain i ffryntiad y stryd er mwyn osgoi gwrthdaro â'r eiddo masnachol ar y llawr (lloriau) is. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n rhaid cynnig cyfiawnhad cryf dros ddefnyddio mynedfeydd a rennir.
- 6.8.2 Dylai mynediad i'r adeilad fod drwy'r drws ffrynt gyda mynediad uniongyrchol o fynedfa'r stryd, neu gyntedd a rennir o fynedfa'r stryd. Dylai pob mynedfa fod yn weladwy, wedi'i goleuo'n dda, yn ddiogel ac wedi'i rhifo'n glir.
- 6.8.3 Dim ond os yw wedi'i oleuo'n dda ac eisoes yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i'r diben hwn y dylai mynediad cefn neu ochr gael ei ddefnyddio fel y brif fynedfa. Nid yw grisiau allanol yng nghefn yr adeilad, trwy lôn gefn, yn dderbyniol fel y brif fynedfa gan eu bod yn lleihau preifatrwydd eiddo cyfagos.

6.9 Addasiadau allanol ac addasiadau mewnol yn effeithio ar olwg allanol

- 6.9.1 Mae effaith weledol unrhyw addasiad ar ymddangosiad allanol yr eiddo yn fater allweddol, ac mae'n rhaid ystyried hyn drwy ddylunio da. Dywed KP5 o'r CCA:

Er mwyn helpu i gefnogi datblygiad Caerdydd fel Prifddinas Ewropeaidd o safon byd, bydd yn ofynnol i bob datblygiad newydd fod o safon uchel, gynaliadwy a gwneud cyfraniad cadarnhaol at greu cymunedau, lleoedd a gofodau unigryw trwy:

- i) *Ymateb i gymeriad lleol a chyd-destun y lleoliad adeiledig a thirwedd, fel bod cynllun, maint, ffurf, crynswth, uchder, dwysedd, lliw, defnyddiau, manylion a'r effaith ar y dreftadaeth adeiledig a naturiol yn derbyn sylw mewn ceisiadau datblygu.*

- 6.9.2 Mae 6.1.3 yn cyflwyno canllawiau ar uchder nenfwd a lefelau llawr. Os yw lefelau'r lloriau yn cael eu newid, rhaid ystyried yr effaith ar yr ymddangosiad o'r stryd, gyda'r lefel llawr isaf yn anweladwy i'r rhai sy'n defnyddio'r stryd. Cyflawnir hyn orau drwy ddefnyddio gwydr aneglur. Yn ogystal, mewn achosion lle gallai fod yn briodol rhannu ystafelloedd mawr yn ystafelloedd llai (Gweler Atodiad C), rhaid cymryd gofal i sicrhau bod ffenestri newydd yn cyd-fynd â'r ystafell a rannwyd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn eiddo â ffrynt ffenestri bae traddodiadol, lle nad yw'n briodol i ddwy ystafell rannu'r un ffenestr.
- 6.9.3 Mae angen ystyried gwaith cynnal a chadw'r HMO yn y dyfodol. Dylai deunyddiau fod yn wydn, a ffefrir plannu planhigion sydd angen gwaith cynnal a chadw isel. Ffefrir yn gryf gadw unrhyw erddi presennol oherwydd eu gwerth amwynder, bioamrywiaeth ac fel cymorth i atal llifogydd. Mae parch at eiddo cyfagos a mannau cyhoeddus, gan gynnwys palmentydd, yn hanfodol a dylai ystyriaeth gael ei rhoi i sut mae'r adeilad yn rhyngweithio â phalmentydd neu fannau cyhoeddus eraill. Yn ystod unrhyw waith datblygu, mae'n rhaid cael trwyddedau priodol ar gyfer sgipiau a sgaffaldiau gan Gyngor Dinas Caerdydd (Gweithrediadau Dinas, Rheoli Asedau).
- 6.9.4 Bydd angen i Dai Amlfeddiannaeth newydd ystyried ffyrdd o ddylunio sy'n rhwystro troseddau, ac sy'n creu amgylcheddau diogel. Anogir ymgeiswyr i drafod gyda Swyddogion Dylunio i Rwystr Troseddau'r Heddlu a chyfeirio at egwyddorion sydd wedi eu sicrhau trwy gynllun sydd yn: www.securedbydesign.com. Noda Polisi C 3 (Diogelwch Cymunedol / Creu Amgylcheddau


Diogel) y Cynllun Datblygu Lleol:

Bydd pob datblygiad newydd ac ailddatblygu yn cael eu cynllunio i hyrwyddo amgylchedd diogel a sicr a lleihau'r cyfle i droseddu. Yn benodol, bydd datblygiad yn:

- i) Macsimeiddio gwylidwriaeth naturiol o ardaloedd a allai fod yn agored i droseddu, fel mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, mannau agored, mannau parcio ceir a llwybrau troed*
